Asesiad Effaith Cymunedol

Ysgol Gymraeg Mornant, Picton

Cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant, Picton (Ysgol Gymunedol Gymraeg) o 31 Awst 2016 ymlaen

TACHWEDD 2015

Mynegai

Rhif	Adran
1	Cyflwyniad
2	Cefndir
3	Ffynonellau Gwybodaeth
4	Ysgol Gymraeg Mornant, Picton • Nifer y disgyblion • Lleoliadau cartrefi'r disgyblion • Corff Llywodraethu • Cymdeithas Rhieni ac Athrawon • Darpariaeth Ychwanegol a Gofal Cofleidiol • Cyfleusterau Cymunedol
5	Ystyriaeth Ychwanegol y Cod Trefniadaeth Ysgolion
6	Asesiad Effaith Cymunedol
7	Crynodeb o'r Effaith Bosibl ar y Gymuned

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ynglŷn â'r cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant, Picton o 31 Awst 2016 ymlaen gan drosglwyddo'r disgyblion presennol i ysgolion eraill gerllaw yn unol â dewisiadau'r rhieni.

1.2 Yn y ddogfen hon bydd y Cyngor yn:

- Crynhoi pob un o'r materion sy'n ymwneud â'r effaith ar y gymuned os bydd y cynnig yn cael ei weithredu.

2.0 Cefndir

2.1 Ein nod yw cael plant a phobl ifanc yn Sir y Fflint i ddatblygu sgiliau bywyd hanfodol, awydd cryf am ddysgu gydol oes a'u paratoi'n dda ar gyfer y byd gwaith. Caiff pob plentyn ac unigolyn ifanc ei gynorthwyo i symud ymlaen drwy'r gwahanol gyfnodau yn eu haddysg. Bydd gan bob plentyn ac unigolyn ifanc hawl i gael rhaglen ddysgu a fydd wedi'i phersonoleiddio i wneud y gorau o'i (g)alluoedd. Bydd plant a phobl ifanc yn dysgu mewn ystod gyffrous ac arloesol o arddulliau a lleoliadau. Bydd y rhain yn cynnwys profiadau dysgu galwedigaethol, mentrus, gwirfoddol, ysbrydol, diwylliannol a chwaraeon. Bydd trefniadaeth ysgolion yn darparu cyfleoedd i gael darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, a darpariaeth ffydd hefyd.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymroddedig i barhau i godi safonau, ac mae'r prif dasgau'n cynnwys sicrhau:

- Disgwyliadau uchel a ffocws clir ar wella safonau addysgu, dysgu a chyrhaeddiad ym mhob cymuned ysgol;
- Bod yr holl adnoddau sydd ar gael i ysgolion yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc o fewn y pwysau cyllidebol;
- Agwedd gyson tuag at gasglu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth asesu, gan gynnwys systemau olrhain, i dargedu cymorth ac ymyraethau; ac
- Ymrwymiad parhaus i ddatblygu staff yr ysgol.
- Cefnogi, ymestyn a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn y gymuned gyfan, gan gynyddu nifer a chanran y disgyblion sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a chydymffurfio â Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru i ddatblygu dysgwyr sy'n gwbl ddwyieithog (h.y. yn rhugl trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg) a lle bo'r galw.

2.2 Cymeradwyodd Cabinet Cyngor Sir y Fflint y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion ym mis Ionawr 2015, ac fe'i diweddarwyd o strategaeth flaenorol y Cyngor a fabwysiadwyd gan y Cabinet yn 2010.

2.3 Mae'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn ofynnol oherwydd bod angen i ni:

- Sicrhau fod y ddarpariaeth addysg o safon uchel ac yn gynaliadwy
- Gwella safon adeiladau a chyfleusterau ysgolion
- Darparu'r nifer gywir o leoedd mewn ysgolion, o'r math cywir, yn y lleoliadau cywir
- Mynd i'r afael ag adeiladau ysgol anghynaladwy a seilwaith ategol
- Cydnabod y bydd gwneud dim byd yn arwain at gymarebau athrawon disgyblion uwch wrth i'r cyllid ostwng
- Sicrhau'n bod yn cynyddu cyllid allanol drwy Raglen Ysgolion y 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru

2.4 Y prif 'sbardunau' neu feini prawf ar gyfer moderneiddio sy'n tanategu'r uchod yw:

- Gwella addysg
- Arweinyddiaeth gadarn mewn ysgolion
- Adeiladau addas
- Lleoedd heb eu llenwi
- Adnoddau sy'n prinhau

2.5 Y cynnig yw cau Ysgol Gymraeg Mornant, Ffordd Picton, Penyffordd, Ger Treffynnon, Sir y Fflint, CH8 9JQ (Ysgol Gymunedol Cyfrwng Cymraeg) o 31 Awst 2016 ymlaen gan drosglwyddo disgyblion i'r rhwydwaith lleol o ysgolion yn seiliedig ar ddewisiadau'r rhieni.

2.6 Cyflwynir y cynnig ar sail y meini prawf a osodir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor, sef:-

- Lleoedd sydd heb eu llenwi ar draws y portffolio ysgolion cynradd – Ym mis Ionawr 2015 (CYBLD), roedd gan Ysgol Gymraeg Mornant, Picton 48 o ddisgyblion llawn amser a chanran y lleoedd heb eu llenwi oedd 57.76%. Ym mis Medi 2015 roedd gan yr ysgol 44 o ddisgyblion llawn amser a chanran y lleoedd heb eu llenwi oedd 60.36% (yn seiliedig ar asesiad nifer lleoedd presennol o 111 disgybl amser llawn).
- Maen prawf adnoddau sy'n prinhau (h.y. mae niferoedd bach yn y gymuned yn codi pryder ynglŷn â chynaliadwyedd o fewn portffolio'r ysgol);
- Ysgol Fechan – Mae poblogaeth Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn is na'r dynodiad cenedlaethol ar gyfer ysgol fechan, hefyd nid yw niferoedd yr ysgol yn cyrraedd y gofynion ar gyfer modelau ysgolion cynradd fel y nodir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor.

- Mae Ysgol Gymraeg Mornant, Picton hefyd ar hyn o bryd (Gorffennaf 2015) yng nghategori 4 Llywodraeth Cymru (allan o 1-4) a 4 yw'r isaf ar gyfer safonau

3.0 Ffynonellau Gwybodaeth

3.1 Mae'r ffynonellau gwybodaeth canlynol wedi'u defnyddio at ddibenion y ddogfen hon:

- Holiadur Effaith Cymunedol a ddychwelwyd gan Bennaeth Dros Dro Ysgol Gymraeg Mornant, Picton
- Data CYBLD Ionawr 2015
- Gwybodaeth ystadegol a gedwir gan y Cyngor;
- Ymatebion cyn yr ymgynghoriad

4.0 Ysgol Gymraeg Mornant, Picton

4.1 Mae Ysgol Gymraeg Mornant yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion 3-11 oed ym mhentref Gwespyr-Picton.

4.2 Lleoliad Ysgol Gymraeg Mornant, Picton



Nifer y disgyblion

4.3 Gan fod y cynigion presennol yn ymwneud â darpariaeth gynradd, os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen a'r ddarpariaeth addysgol yn dod i ben yng Ngwespyr Picton, byddai'n rhaid i Rieni/ Gwarcheidwaid ddewis darpariaeth

arall. Y ddarpariaeth arall a nodwyd ar sail yr un dynodiad iaith ar gyfer dysgwyr hynny yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yw:-

Ysgol Gwenffrwdd, Treffynnon ac

Ysgol y Llys, Prestatyn (Cyngor Sir Ddinbych)

Mae Ysgol Gwenffrwdd, Treffynnon ac Ysgol y Llys, Prestatyn (Cyngor Sir Ddinbych) hefyd yn ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion 3 – 11 oed. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai rhieni/ gwarcheidwaid hefyd ddymuno dewis darpariaeth arall yn yr ardal. Mae'r ysgolion hyn wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori ffurfiol.

4.4 Ym mis Ionawr 2015 roedd gan Ysgol Gymraeg Mornant, Picton 48 o ddisgyblion llawn amser ar y gofrestr. Gwelir nifer y disgyblion dros gyfnod o 5 mlynedd isod:

Niferoedd y **disgyblion llawn amser** ar y gofrestr (*Ffynhonnell: Data CYBLD Blynyddol Ionawr*) Ion 2011-2015

Ion 11	Ion 12	Ion 13	Ion 14	Ion 15
63	58	57	52	48



Mae nifer wirioneddol y disgyblion llawn amser ar y gofrestr ym mis Medi 2015 wedi'i wirio gydag Ysgol Gymraeg Mornant, Picton a Thîm Gwybodaeth Rheoli Ysgolion Sir y Fflint, ac mae gan yr ysgol 44 o ddisgyblion llawn amser ar y gofrestr.

Lleoliadau cartrefi'r disgyblion

4.5 Mae polisi derbyn ysgolion y Cyngor yn seiliedig ar yr egwyddor o bresenoldeb yn yr ysgol addas agosaf, ar sail pellter. Nid yw'r Cyngor yn gweithredu system yn seiliedig ar ddalgylchoedd. Cyfeirir at ysgolion fel yr 'ysgol addas agosaf' sy'n rhoi ystyriaeth i ddewis iaith a ffydd. Gall rhieni/gwarcheidwaid fynegi ffafriaeth ar gyfer unrhyw ysgol i'w plentyn/plant a chyn belled bod digon o leoedd ar gael, rhaid dyrannu lle i'r plenty/plant.

4.6 Wrth wneud yr asesiad hwn, mae gofyn ystyried ysgolion eraill (Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon ac Ysgol y Llys, Prestatyn (Cyngor Sir Ddinbych) fel y ddarpariaeth a enwir yn y ddogfen) y gallai disgyblion presennol Ysgol Gymraeg Mornant, Picton eu mynychu.

Ysgolion	Lleoliad	Pellter yn fras o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton	Math	Categori Iaith	Capasiti Llawn Amser
Ysgol Gymraeg Mornant, Ffordd Picton, Penyffordd, Treffynnon, CH8 9JQ	Gwespyr-Picton	Amh.	Ysgol Gymunedol	Cyfrwng Cymraeg	111
Ysgol Gwenffrwdd, Stryd Chwitffordd, Treffynnon, Sir y Fflint, CH8 7NJ	Treffynnon	6.69 milltir	Ysgol Gymunedol	Cyfrwng Cymraeg	256
Ysgol Y Llys, Princes Avenue, Prestatyn, Sir Ddinbych LL19 8RP	Prestatyn	4.37 milltir	Ysgol Gymunedol	Cyfrwng Cymraeg	420

Ffynhonnell Pellter: Canfyddwr Llwybrau 3.41 System Fapio Cyngor Sir y Fflint

* (yn seiliedig ar yr asesiad o nifer lleoedd presennol yr ysgol o 111 disgybl amser llawn);

4.7 Dangosir lleoliadau cartrefi disgyblion presennol Ysgol Gymraeg Mornant, Picton (ym mis Medi 2015) ar y map isod;



4.8 **Canran y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Mornant, Picton** (Ffynhonnell: ciplun o ddisgyblion o'r system ONE, Medi 2015)

Ysgol	% y disgyblion lle mae Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yw eu Hysgol Cyfrwng Cymraeg agosaf	% y disgyblion lle nad Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yw eu Hysgol Cyfrwng Cymraeg agosaf
Ysgol Gymraeg Mornant, Picton	23.25%	76.75%

Corff Llywodraethu

4.9 Darperir manylion y Corff Llywodraethu yn y tabl isod:

Nifer y Llywodraethwyr Awdurdod Lleol	2
Nifer y Rhieni Lywodraethwyr	3
Nifer y Llywodraethwyr Cymunedol	2
Nifer yr Athrawon Lywodraethwyr	1
Nifer y Llywodraethwyr Cyngor Cymuned	1
Nifer y Pennaeth Lywodraethwyr	1
Cyfanswm y Staff Lywodraethwyr	1
Cyfanswm y Llywodraethwyr	**11**

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

4.10 Mae gan yr ysgol gymdeithas rhieni ac athrawon sy'n cyfarfod yn fisol.

Darpariaeth ychwanegol a gofal cofleidiol

4.11 Nid yw Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn cynnig gofal cofleidiol[1], ond mae ganddo Gylch Meithrin sy'n gweithredu ar safle'r ysgol.

Clwb brecwast	Oes
Clwb ar ôl ysgol	Oes
Clwb gwyliau	Nac oes

[1] Diffinnir Gofal Cofleidiol fel gofal plant a ddarperir yn yr ysgol y tu allan i oriau craidd y blynyddoedd cynnar a gynigir fel sesiynau cyn meithrin

Cyfleusterau Cymunedol

4.12 Rhestrwyd y cyfleusterau cymunedol canlynol gan y pennaeth wrth gwblhau'r asesiad effaith cymunedol.

Cyfleuster	Lleoliad
Eglwys Llanasa	Llanasa

4.13 Y gweithgareddau cymunedol a gynhelir yn Ysgol Mornant yw:-

Gweithgaredd	Amledd
Cyfarfodydd codi arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2016	6 gwaith y flwyddyn
Dysgu Teulu	1 bob wythnos

4.14 Ceir crynodeb o sylwadau eraill a ddarparwyd gan yr ysgol isod:

Nid oedd unrhyw sylwadau wrth ysgrifennu'r ddogfen hon.

5 Ystyriaethau Ychwanegol Y Cod Trefniadaeth Ysgolion

5.1 Mae materion penodol yn y Cod y dylai Cyngor Sir y Fflint eu hystyried wrth asesu effaith y Cynnig Presennol ar y gymuned, sef;

- P'un a fyddai modd gwella cyfleusterau eraill yn y gymuned leol neu ehangach os bydd yr ysgol yn cau;
- Gwybodaeth am gyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol arall;
- Gwybodaeth am y pellter a'r amser teithio i fynychu ysgol arall;
- Sut i hybu ymgysylltiad y rhieni a'r disgyblion â'r ysgol arall ac unrhyw gyfleusterau y gallai eu cynnig;
- Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ehangach y byddai'r newidiadau'n eu cael ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus;
- Gwybodaeth am faterion diogelwch cymunedol ehangach

6 Asesiad Effaith Cymunedol

6.1 Mae'r Asesiad Effaith hwn yn ystyried effeithiau posibl y cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant, Picton ar deuluoedd a'r gymuned leol.

Meini Prawf Effaith	Sylwadau	Effaith	Mesurau i ostwng unrhyw effaith negyddol	Effaith Gweddilliol
Mynediad at ddarpariaeth o'r un dynodiad	Mae Ysgol Gymraeg Mornant, Gwespyr Picton yn ysgol gynradd gymunedol. dynodwyd darpariaeth arall gerllaw, sef Ysgol Gwenffrwdd, Treffynnon a leolir 6.69 milltir i ffwrdd o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton ac Ysgol Y Llys, Prestatyn a leolir 4.37 milltir i ffwrdd o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton.	Niwtral	Dim effeithiau negyddol gan fod y ddarpariaeth arall yn darparu'r un dynodiad iaith.	Amh.
Mynediad at ddarpariaeth o'r un cyfrwng iaith	Mae Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg categori 4. Y ddarpariaeth arall a nodwyd gerllaw, Ysgol Gwenffrwdd, Treffynnon (Categori 3) ac Ysgol Y Llys, Prestatyn (Categori 3). Mae gan y ddwy leoedd heb eu llenwi ar hyn o bryd ac os bydd y cynnig presennol yn cael ei weithredu gallai'r ysgolion roi lle i ddisgyblion	Niwtral	Dim effeithiau negyddol gan fod y ddarpariaeth arall yn darparu'r un dynodiad iaith.	Amh.

	sy'n dymuno trosglwyddo o Ysgol Gymraeg Mornant, Gwespyr Picton.			
Effaith y cynnig presennol ar gymuned Gwespyr-Picton	Os bydd y cynnig presennol yn cael ei weithredu bydd y ddarpariaeth addysgol gynradd yn dod i ben ym mhentref Gwespyr-Picton.	Negyddol	Nid oes cyfleusterau eraill yn bodoli ar gyfer digwyddiadau cymunedol yn y pentref, megis neuadd bentref. Nid oes gan y Cyngor gynlluniau wedi eu pennu ymlaen llaw ar gyfer safle'r ysgol os bydd yr ysgol yn cau. Dim ond ar ôl i ddyfodol yr ysgol gael ei bennu y bydd cynlluniau'n cael eu gwneud ar gyfer y defnydd o safle'r ysgol yn y dyfodol. Gallai'r Cyngor ystyried trosglwyddo'r ased neu ran ohono i grŵp cymunedol a gyfansoddwyd os gall arddangos yr angen a'r gallu i gymryd cyfrifoldeb dros redeg y safle.	Niwtral
Effaith ar ysgolion cyfagos	Byddai'r cynnig yn cael effaith ar Ysgol Gwenffrwdd, Treffynnon ac Ysgol Y Llys, Prestatyn, yn amodol ar ddewis y rhieni. Mae lleoedd ar gael yn y system i ddisgyblion o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton mewn ysgolion cyfagos. Ni fyddai'n cael effaith fawr ar ysgolion cyfagos oherwydd y nifer bresennol ac arfaethedig o leoedd	Niwtral	Amh.	Amh.

	heb eu llenwi yn yr ardal. Fel y nodwyd eisoes, mae lleoedd ar gael yn yr ysgolion eraill a nodwyd.			
Effaith ar ddisgyblion	Wrth gynnig newidiadau i drefniadaeth ysgol cydnabyddir y bydd rhai newidiadau i'r disgyblion. Os gweithredir y cynnig a bod Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn cau byddai'r disgyblion presennol yn wynebu newid. Dyma'r prif newidiadau y nododd y Cyngor cyn yr ymgynghoriad y byddai disgyblion presennol Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn eu hwynebu: • Siwrnai newydd neu hirach i'r ysgol; • Gwisg ysgol newydd; • Athrawon newydd; • Amgylchedd dysgu newydd; ac • Effaith ar grwpiau ffrindiau	Safonau Addysgol – Effaith Bositif Cymhwyster Cludiant – Effaith Niwtral Amseroedd Teithio - Negyddol	Byddai Cyngor Sir y Fflint yn cymryd pob cam ymarferol i wneud y cyfnod pontio'n haws i bob disgybl, yn arbennig dysgwyr sy'n agored i niwed megis ADY. Os caiff y cynnig ei weithredu byddai'r cyngor yn trefnu diwrnodau pontio i ddisgyblion gael ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd au newydd (yn amodol ar ddewis y rhieni). Byddai unrhyw ddisgyblion sy'n cael cymorth ychwanegol yn ei gael yn eu hamgylchedd dysgu newydd hefyd. Mae'n bosibl y bydd modd i ddisgyblion gyfnewid eu gwisgoedd ysgol yn unol â dewis y rhieni. I'r rhan fwyaf o ddisgyblion byddai'r pellter a deithir yn	Niwtral Positif

			cynyddu, ond ni fyddai hyn ymhellach na'r hyn a nodir ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008	
Effaith ar rieni a theuluoedd	Mae'n bosibl y bydd mwy o effaith ar rieni/gofalwyr o Wespyr-Picton os bydd eu disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion gerllaw. Byddai colli'r ysgol fel amgylchedd cymdeithasol anffurfiol i rieni/gofalwyr ryngweithio ynddo yn cael effaith ar rieni. Mae'n bosibl y bydd effaith ar ddarpar rieni o Wespyr-Picton gan fod Cylch Meithrin Mornant yn cael ei gynnal ar safle Ysgol Gymraeg Mornant, Picton.	Safonau Addysgol – Effaith Bositif Cymhwyster Cludiant – Effaith Niwtral Ameroedd Teithio - Negyddol	Er bod effaith ar rieni a theuluoedd yn bosibl, gallai'r cynnig gael effaith bositif ar deuluoedd o ganlyniad i ddarpariaeth addysgol well a mynediad at grwpiau mwy o rieni a theuluoedd sy'n rhan o gymuned ysgol fwy. I'r rhan fwyaf o ddisgyblion byddai'r pellter a deithir yn cynyddu, ond ni fyddai hyn ymhellach na'r hyn a nodir ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.	Niwtral Positif
Effaith ar drefniadau teithio dysgwyr	Mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion yn gorfod teithio ymhellach i'r ysgol os bydd y cynnig presennol yn cael ei weithredu. Os bydd rhieni/gofalwyr yn dewis anfon eu plentyn/plant i'r ysgol briodol agosaf i'w cartrefi ***byddai gan bob disgybl hawl i dderbyn cludiant ysgol am ddim. Byddai'r gost flynyddol oddeutu £26,600. Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys disgyblion Meithrin presennol Ysgol Gymraeg Mornant, Picton. Nid yw'r Cyngor yn cludo disgyblion oedran meithrin i'r ysgol ond tybir y byddai'r disgyblion meithrin yn symud ymlaen i'r dosbarth derbyn ym mis Medi 2015 ac y byddent	Negyddol	Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu yn unol â Chanllaw Gweithredol Teithio Dysgwyr a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (canllaw a adolygwyd yn 2014). Yn seiliedig ar leoliadau cartrefi'r disgyblion presennol a'r	Niwtral

	wedyn yn gymwys fel disgyblion llawn amser. Mae nifer o'r disgyblion yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn byw yn Sir Ddinbych. Byddai cymhwyster cludiant yn cael ei reoli gan Gyngor Sir Ddinbych. Anfonir copi o'r adroddiad ymgynghori atynt er gwybodaeth. Gwelir yr Asesiad Effaith Cludiant ar gyfer y cynnig hwn drwy'r ddolen ganlynol:- www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation		pellter at ddarpariaeth arall byddai'r holl bellteroedd teithio yn cadw o fewn y canllawiau. Ni allai disgyblion ddefnyddio llwybrau cerdded ym mhentref Gwespyr Picton.	
Effaith ar ddemograffeg cymunedol	Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd y cynnig yn cael rhywfaint o effaith ar gymuned Gwespyr-Picton. Byddai colli'r ysgol yn cael effaith ar nifer cyfyngedig o weithgareddau cymunedol a gynhelir yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton ar hyn o bryd. Nid oes ceisiadau cynllunio wedi eu cymeradwyo ar gyfer datblygiadau tai yn ardal Gwespyr-Picton ar hyn o bryd.	Negyddol	Gallai'r Cyngor ystyried trosglwyddo'r ased neu ran ohono i grŵp cymunedol a gyfansoddwyd os gall arddangos yr angen a'r gallu i gymryd cyfrifoldeb dros redeg y safle. Gellid mabwysiadu mesurau i ostwng yr effaith i sicrhau fod pentref Gwespyr-Picton yn parhau i ffynnu drwy feithrin cysylltiadau agos rhwng y gymuned a'r ysgolion eraill.	Niwtral

Trosolwg o'r effaith bosibl ar deuluoedd a'r gymuned leol

	Positif	Niwtral	Negyddol
Effaith gyffredinol*	0	3	5

*Nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth unrhyw fesurau y gellid eu defnyddio i ostwng effaith negyddol

Trosolwg o effaith weddilliol ar deuluoedd a'r gymuned leol

	Positif	Niwtral	Negyddol
Effaith gyffredinol*	0	3	2

*Nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth unrhyw fesurau y gellid eu defnyddio i ostwng effaith negyddol

7. Crynodeb a Chasgliadau o'r Effaith Bosibl ar y Gymuned

7.1 Mae'r asesiad effaith wedi nodi nifer o feysydd posibl lle gallai'r cynnig gael rhai effeithiau negyddol ar nifer fach o deuluoedd lleol ac ar y gymuned leol.

7.2 Byddai colli'r ysgol yn cael effaith fechan iawn ar weithgareddau cymunedol a gynhelir yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton a'r cyfleusterau cymunedol.

7.3 Nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw gynlluniau ar gyfer safle'r ysgol pe bai'r ysgol yn cau. Dim ond ar ôl pennu beth fydd dyfodol yr ysgol y caiff cynlluniau eu gwneud ar gyfer safle'r ysgol. Gallai'r Cyngor ystyried trosglwyddo'r ased neu ran ohono i grŵp cymunedol a gyfansoddwyd os gall arddangos yr angen a'r gallu i gymryd cyfrifoldeb dros redeg y safle.